

# Sut mae defnyddio codau QR i fewngofnodi i lleoliad



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Profi  
Olrhain  
Diogelu

Test  
Trace  
Protect



Test and Trace

## Canllaw




1 Lawrlwythwch ap COVID-19 y GIG o App Store neu Google Play Store.




2 Wrth ymweld â lleoliad, chwiliwch am boster QR ap COVID-19 y GIG.



3 Agorwch ap COVID-19 y GIG a tapiwch ar "Mewngofnodi i leoliad". Yna defnyddiwch gamera eich ffon i sganio'r cod QR ar y poster.



4 Bydd amser a dyddiad eich ymweliad yn cael ei storio ar yr ap. Ni chaiff y manylion eu rhannu na'u hanfon at neb arall.



5 Ar ôl sganio'r cod QR ar y poster, byddwch wedi mewngofnodi i'r lleoliad yn llwyddiannus.



6 Os ewch i leoliad gwahanol, agorwch ap COVID-19 y GIG a tapiwch "Mewngofnodi i leoliad". Yna defnyddiwch eich camera eto i sganio'r poster QR yno.



7 Efallai y cewch neges os yw tîm olrhain cysylltiadau'r GIG yn nodi eich bod wedi bod rhywle lle gallech fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws (COVID-19). Os ydych o dan 18, dylech ddangos y neges i oedolyn cyfrifol.



8 Os cewch symptomau coronafeirws (COVID-19), cofiwch eu cofnodi yn ap COVID-19 y GIG a dilynwch gyngor y Llywodraeth.